**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Darren Hughes
Cyfarwyddwr, Cydffederasiwn GIG Cymru
Drwy e-bost

30 Hydref 2025

Annwyl Darren,

Gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27: Pwysau chwyddiant

Diolch i chi am gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig mewn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2026-27.

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ar 16 Hydref 2025, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg fod Llywodraeth Cymru wedi ystyried rhagolygon mis Mawrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer y datchwyddydd cynnyrch domestig gros (1.7 y cant), chwyddiant y mynegai prisiau defnyddwyr (1.9 y cant) a'r twf enillion cyfartalog (2.2 y cant) ar gyfer 2026-27 wrth seilio'r codiadau yn ôl chwyddiant mewn cyllidebau adrannol ar gyfer 2026-27. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd o 2.2 y cant ar adnoddau cyllidol a ddarparwyd ar gyfer elfennau cyflog y sector cyhoeddus a 2 y cant ar adnoddau cyllidol nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau, cyfalaf cyffredinol ac ar gyfer Cyfalaf Trafodiadau Ariannol ym mhob adran. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet ymhellach:

> *"I have to use a figure that is independent and authoritative. I'm offered all sorts of figures of what some people think inflation may be next year, but I can't take an estimate of inflation just on the basis of the say-so of a particular interest group. I have to go on the most authoritative, the most independent source that we have … If we were to do anything else, we would be an outlier, and we would have an awful lot of explaining to do. I think it is much stronger ground for us to do what is the accepted way of doing these things and to rely on the advice that we get from an independent and authoritative source of advice, as every other UK Government does."*

Mae'r mater hwn o ddiddordeb allweddol i'r Pwyllgor wrth graffu ar y Gyllideb Ddrafft ac mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed eich barn mewn perthynas â'r canlynol:

- Mae eich ymateb yn datgan bod ‘pwysau chwyddiant wedi cael effaith sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf’ a bod ‘costau cynyddol o ganlyniad i chwyddiant wedi cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth y GIG’. A ydych chi'n gallu meintioli effaith chwyddiant ar gost darparu gwasanaethau'r GIG y flwyddyn nesaf, ac a yw chwyddiant y mynegai prisiau defnyddwyr, a ddefnyddir fel sail ar gyfer rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yn adlewyrchu'n gywir y pwysau cost y mae cyrff y GIG yn eu hwynebu?
- A oes unrhyw fetrigau amgen rydych chi'n eu defnyddio i amcangyfrif y gost chwyddiant ar gyfer darparu gwasanaethau o flwyddyn i flwyddyn yn fwy cywir?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cais hwn erbyn dydd Gwener 7 Tachwedd er mwyn caniatáu i’ch safbwyntiau lywio ein gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft cyn dyddiad cau’r Pwyllgor ar gyfer cyflwyno adroddiad a'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Gyllideb Ddrafft ym mis Rhagfyr.

Rwy'n anfon copi o’r llythyr hwn at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan ei fod yn ymwneud â materion polisi o fewn ei bortffolio.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. | We welcome correspondence in Welsh or English.